

## Pwyllgor Eithriadol Archwilio a Sicrwydd - CYHOEDDUS

COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU GWEITHREDU I'W CYMRYD

🕒 09:00 – 09:45

📅 18/07/2023

📍 MS Teams

Cadeirydd	Marian Wyn Jones
-----------	------------------

Yn Bresennol (Aelodau)		Teitl	Sefydliad
Marian Wyn Jones (Cadeirydd)	MW-J	Aelod Annibynnol, Cadeirydd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Alistair Klaas Neill	AN	Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Ruth Glazzard	RG	Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Bwrdd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Marilyn Bryan Jones	MB-J	Aelod Annibynnol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Yn bresennol			
Stephen Chaney	StC	Dirprwy Bennaeth Archwilio Mewnol	Archwilio Mewnol Partneriaeth Cydasanaethau GIG Cymru
Mark Cox	MC	Cyfarwyddwr Cyswllt Cyllid	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Chris Darling	CD	Ysgrifennydd y Bwrdd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Gillian Gillett	GG	Rheolwr Archwilio	Archwilio Cymru
Claire Osmundsen-Little	CO-L	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Julie Robinson	JR	Cydlynnydd Llywodraethu	Iechyd a Gofal Digidol Cymru

		Corfforaethol	(DHCW)
Dave Thomas	DT	Pennaeth Archwilio Allanol	Archwilio Cymru
Laura Tolley	LT	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
David Tomalin	DaT	Uwch Archwiliwr	Archwilio Cymru
Sian Williams	SW	Pennaeth Gwasanaethau Ariannol ac Adrodd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Ymddiheuriadau			
Ifan Evans	IE	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Nathan Couch	NC	Arweinydd Perfformiad Archwilio	Archwilio Cymru

Acronymau			
Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)	Iechyd a Gofal Digidol Cymru	AS	Archwilio a Sicrwydd
AIA	Awdurdod Iechyd Arbennig	MfA	Llawlyfr Cyfrifon
SRO	Uwch Swyddog Cyfrifol	LINC	Rhwydwaith Gwybodaeth Labordy Cymru
RISP	Caffael System Gwybodaeth Radioleg		

Rhif yr Eitem	Eitem	Canlyniad	Cam Gweithredu
<b>1</b>	<b>MATERION RHAGARWEINIOL</b>		
1.1	<p><b>Croeso a Chyflwyniadau</b></p> <p>Croesawodd y Cadeirydd, Marian Wyn Jones, bawb i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Eithriadol, yr ail ers sefydlu Iechyd a Gofal Digidol Cymru.</p> <p>Cynhaliwyd y cyfarfod trwy Microsoft Teams ac atgoffwyd y rhai a oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei recordio</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi

	ac y byddai'n cael ei bostiö ar wefan Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn dilyn y cyfarfod.		
1.2	<p><b>Ymddiheuriadau absenoldeb</b></p> <p>Nodwyd yr ymddiheuriadau canlynol:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ifan Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth</li> <li>• Nathan Couch, Archwilio Cymru</li> </ul>	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.3	<p><b>Datganiadau o Fuddiannau</b></p> <p>Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
<b>RHAN 2 - BUSNES Y CYFARFOD</b>			
2.1	<p><b>Adroddiad Blynyddol 2022/23</b></p> <p>Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol 2022/23. Cadarnhaodd Chris Darling, Ysgrifennydd y Bwrdd (CD) ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod Iechyd Arbennig gyflwyno ei Adroddiad Blynyddol gan gynnwys ei Adroddiad Atebolrwydd i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Gorffennaf 2023.</p> <p>Mae'r Llawlyfr Cyfrifon (MfA) yn nodi ei bod yn ofynnol i bob sefydliad GIG gyhoeddi Adroddiad Blynyddol fel un ddogfen unedig mewn tair rhan:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yr Adroddiad Perfformiad</li> <li>• Yr Adroddiad Atebolrwydd</li> <li>• Y Datganiadau Ariannol</li> </ul> <p>Roedd yr Adroddiad Blynyddol wedi'i gynhyrchu gan ddefnyddio canllawiau wedi'u diweddarau a gyhoeddwyd yn gynharach eleni a oedd wedi rhoi mwy o bwyslais ar Lywodraethu Gwybodaeth, cais am ragor o wybodaeth am ddadansoddi risg a sut y'i gwreiddiwyd ar draws y sefydliad, roedd mwy o bwyslais ar ansawdd wedi'i wreiddio drwy gydol yr adroddiad a chais i adlewyrchu effaith Covid 19 ar y sefydliad.</p> <p>Roedd yr Adroddiad Perfformiad yn rhoi gwybodaeth am y prif amcanion/strategaethau a'r prif risgiau sy'n wynebu Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Gofyniad cyffredinol yr Adroddiad Blynyddol oedd iddo fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy. Roedd y Swyddog Atebol yn fodlon ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.</p> <p>Cynlluniwyd yr Adroddiad Atebolrwydd i fodloni tri gofyniad allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru ac roedd yn cynnwys:</p>	I'w Gymeradwyo	Dim i'w nodi

- Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol
- Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth a Staff
- Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Diolchodd CD i Lywodraeth Cymru, Archwilio Cymru ac Archwilio Mewnol am eu hadborth ar yr Adroddiad Blynyddol drafft a chadarnhaodd fod eu sylwadau wedi'u hadlewyrchu yn yr Adroddiad Blynyddol terfynol.

Cynhyrwyd fformat yr Adroddiad Blynyddol fel un ddogfen unedig mewn PDR yn unol â'r canllawiau, i ganiatáu mwy o hygyrchedd ac i adlewyrchu Iechyd a Gofal Digidol Cymru fel sefydliad digidol roedd yr Adroddiad Blynyddol hefyd wedi'i gynhyrchu mewn HTML ac ar ôl iddo gael ei osod yn y Senedd ar 31 Gorffennaf 2023 yn cael ei gyhoeddi a'i hyrwyddo yn y fformat hwn.

Roedd yr amserlenni wedi bod yn unigryw ar gyfer Adroddiad Blynyddol eleni tra bod Archwilio Cymru ac eraill yn deall goblygiadau'r ISA315 ac o ganlyniad roedd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol wedi'i amserlennu'n hwyrach nag a gynlluniwyd yn wreiddiol ar 28 Medi 2023, roedd hyn yn un fath ar gyfer holl Gyrff GIG Cymru.

Rhoddodd Stephen Chaney, Pennaeth Interim Archwilio Mewnol (StC) ddiweddariad llafar ar Farn y Pennaeth Archwilio Mewnol ynghyd â chanlyniadau cryno'r gwaith archwilio mewnol a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn. Roedd y diweddariad yn cynnwys crynodeb o berfformiad archwilio ac asesiad o gydymffurfiaid â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Roedd StC yn falch o adrodd bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi cael sicrwydd rhesymol bod trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn y meysydd a adolygwyd wedi'u cynllunio'n addas a'u cymhwyso'n effeithiol.

Darparodd aelodau'r Pwyllgor sylwadau ar yr adroddiad:-

- Roedd yr adroddiad yn un o ddwy ddogfen i'r cyhoedd, a'r llall oedd y Cynllun Tymor Canolig Integredig ond roedd yr Adroddiad Blynyddol wedi'i anelu at randdeiliaid ehangach ac aelodau'r cyhoedd a byddai'n cael ei hyrwyddo drwy'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol gan ddefnyddio fformat HTML a chroesawodd aelodau'r Pwyllgor y ffaith bod yr adroddiad yn cael ei hyrwyddo'n frwd.
- Roedd yr Adroddiad Blynyddol nid yn unig yn adlewyrchu ar y cyflawniadau hyd yma ond yn

	<p>cydnabod faint mwy o waith oedd eto i'w wneud.</p> <p><b>Penderfynodd</b> y Pwyllgor:</p> <p><b>NODI A CHYMERADWYO</b> fersiwn terfynol Adroddiad Blynyddol 2022/23 i argymhell ei fod yn cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 31 Gorffennaf 2023 fel rhan o'r adroddiadau blynyddol gofynnol ar gyfer 2022/2023 a'i rannu yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a <b>NODI</b> Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol</p>		
2.2	<p><b>Cyfrifon Blynyddol Terfynol Iechyd a Gofal Digidol Cymru 2022/23</b></p> <p>Cyflwynodd Claire Osmundsen-Little, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid (CO-L) Gyfrifon Blynyddol 2022/23 a oedd yn cynnwys:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y cyfrifon blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023;</li> <li>• A'r Llythyr Cynrychiolaeth a ddarparwyd mewn cysylltiad ag archwilio'r datganiadau ariannol.</li> </ul> <p>Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd y cyfrifon drafft yn ei gyfarfod ar 4 Mai 2022 pan fu'n adolygu'r cyfrifon ac fe gafodd yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed yn yr archwiliad a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru. Roedd yr archwiliad bellach wedi'i gwblhau a chyflwynwyd y cyfrifon i'w cymeradwyo i'r Bwrdd ar 27 Gorffennaf 2023, ac yn dilyn hynny byddent yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 31 Gorffennaf 2023.</p> <p>Tynnodd COL sylw at y cyd-destun y cwblhawyd y cyfrifon ynddo, a hynny drwy gyfnod heriol i GIG Cymru o safbwynt ariannol. Roedd yr archwiliad yn fwy o ddull seiliedig ar risg ac yn para'n hirach a oedd ag adnoddau da fel y nodwyd yn y taliadau uwch. Fodd bynnag, gyda throsglwyddo asedau LINC a RISP a defnyddio cyllidebau ar draws y strwythur cyfarwyddiaeth wedi'i adnewyddu, creodd hyn heriau adnoddau i Iechyd a Gofal Digidol Cymru ond gyda'i gilydd, cyflawnwyd set gytbwys o gyfrifon.</p> <p>Roedd y cyfrifon ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 ac fe'u crynhoir o dan 5 datganiad allweddol a'u hategu gan gyfres o nodiadau manwl:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr</li> <li>○ Gwariant net cynhwysfawr arall</li> <li>○ Datganiad o Sefyllfa Ariannol</li> <li>○ Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr</li> </ul>	Nodwyd a Chymeradwyd	<b>Cam Gweithredu:</b> Deilliannau'r adolygiad o'r Gwersi a Ddysgwyd i'w cyflwyno i gyfarfod mis Hydref.

	<ul style="list-style-type: none"> <li>○ Datganiad o lifau arian parod am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.</li> <li>• Newidiadau i Nodiadau: gwnaed nifer o newidiadau cyflwyniadol (heb unrhyw effaith ariannol) i'r cyfrifon blynyddol.</li> <li>• Un gwelliant gydag effaith Ariannol. Cytunodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru i gywiro camddatganiad o £131,000 ac arweiniodd y cywiriad at gynnydd o danwariant o £73k i £204k.</li> <li>• Digwyddiad nad yw'n addasu: Cytunodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru ag Archwilio Cymru i nodi ond nid addasu ar gyfer asedau anghyfredol.</li> <li>• Bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ag Archwilio Cymru i nodi a gweithredu meysydd i'w gwella ar gyfer 2023/2024.</li> <li>• Mewn rhai achosion, nid oedd cyflwyniad tabl y gweithlu a graffeg yn cydymffurfio'n llwyr â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Cywirwyd yr achosion hyn yn y fersiwn derfynol.</li> </ul> <p>Byddai adolygiad o'r Gwersi a Ddysgwyd 2022/23 yn cael ei gynnal rhwng Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac Archwilio Cymru ym mis Medi a byddai canlyniadau'r drafodaeth yn cael eu rhannu â'r Pwyllgor ym mis Hydref.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i bawb a fu'n ymwneud â chynhyrchu'r set derfynol o gyfrifon archwiliedig ac ychwanegodd ei bod yn gyflawniad sylweddol i gyflawni'r ddwy ddyletsydd statudol ariannol, yn enwedig yn nhirwedd ariannol ac economaidd heriol iawn y flwyddyn ddiwethaf.</p> <p><b>CAM GWEITHREDU: 202310718-A01</b> Deilliannau trafodaethau'r Adolygiad o'r Gwersi a Ddysgwyd i'w cyflwyno i gyfarfod mis Hydref.</p> <p><b>Penderfynodd y Pwyllgor:</b></p> <p><b>NODI a CHYMERADWYO</b> Cyfrifon Blynyddol 2022/23 i'r Bwrdd gan gynnwys y Datganiadau Ariannol, Llythyr Cynrychiolaeth, i argymhell ei fod yn cael ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Awdurdod Iechyd Arbennig cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 31 Gorffennaf fel rhan o'r adroddiadau blynyddol gofynnol ar gyfer 2022/2023.</p>		
2.3	<p><b>Archwiliad Cyfrifon Blynyddol Iechyd a Gofal Digidol Cymru (ISA260) Adroddiad Archwilio Cymru</b></p> <p>Cyflwynodd David Tomalin, Archwilio Cymru (DaT)</p>		

	<p>Adroddiad ISA260 Archwilio Cymru.</p> <p>Dywedwyd wrth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd bod yr archwiliad yn gadarnhaol iawn er gwaethaf yr heriau a roddwyd i Iechyd a Gofal Digidol Cymru y flwyddyn ariannol hon. Tynnodd DaT sylw at brif uchafbwyntiau'r adroddiad:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Roedd Archwilio Cymru wedi cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y Cyfrifon.</li> <li>• Cynhwyswyd risg ychwanegol o fewn y dull profi sy'n ymwneud â'r 'Risg Tybiedig o Dwyll o gydnabod gwariant' ers cyhoeddi'r cynllun archwilio manwl ym mis Mai.</li> <li>• Nodwyd un camddatganiad yn y datganiad cyfrifon a drafodwyd gyda'r rheolwyr, ond heb ei addasu.</li> <li>• Cywirwyd y camddatganiadau cychwynnol yn y cyfrifon, ac amlinellir gwybodaeth bellach yn Atodiad 3.</li> <li>• Nid oedd unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o feysydd yn y cyfrifon, roedd dau fân fater wedi'u cynnwys yn yr argymhellion a byddent yn cael sylw yn unol â hynny.</li> </ul> <p>Cadarnhaodd Archwiliad Cymru ei bod yn gyflawniad arwyddocaol derbyn barn ddiamod ar y set o gyfrifon yn y cyfnod heriol hwn a mynegodd eu diolch i bawb yn y tîm Cyllid.</p> <p><b>Penderfynodd</b> y Pwyllgor:</p> <p><b>NODI</b>r Adroddiad Archwilio Cyfrifon (ISA260) ar gyfer Awdurdod Iechyd Arbennig Iechyd a Gofal Digidol Cymru a <b>CHYMERADWYO</b>'r Cynllun Archwilio Manwl.</p>		
<b>RHAN 3</b>	<b>MATERION I GLOI</b>		
3.1	<p><b>Unrhyw Faterion Brys eraill</b></p> <p>Ni chodwyd unrhyw faterion brys eraill i'w nodi.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
3.2	<p><b>Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 17 Hydref 2023</li> </ul>	Nodwyd	Dim i'w nodi